awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

# Amlinelliad Swydd

## Teitl y Swydd:
Gweinyddwr Cymorth Llyfrgelloedd

## Sail
Rhan Amser – 18.5 awr

## Cyflog:
£12,850 - £13,036 y flwyddyn

## Statws:
Parhaol

## Lleoliad:
Canolfan Bywyd Betws

## Yn Atebol i'r:
Rheolwr Datblygu Llyfrgelloedd

## Yn atebol am:
Amherthnasol

## Eich Rôl:

Byddwch yn rhoi amrywiaeth o gymorth gweinyddol i'r gwasanaeth llyfrgelloedd.

Byddwch yn coladu, cyflwyno a dosbarthu data perfformiad llyfrgelloedd ar gyfer gofynion mewnol ac allanol, a byddwch yn bwynt cyswllt y gwasanaeth ar gyfer systemau ar-lein.

# Yn y rôl byddwch yn:

- Coladu, cyflwyno a dosbarthu data perfformiad llyfrgelloedd cywir at ddefnydd mewnol ac allanol, gan gynnwys Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, Books4U a phartneriaid y cyngor.
- Gweinyddu'r system rheoli llyfrgelloedd, gan gynnwys bod yn bwynt cyswllt ar gyfer Awen â thîm Cymru gyfan.
- Cynorthwyo'r rheolwr TGCh gyda rheoli caledwedd, meddalwedd a gwasanaethau ar-lein at ddefnydd y cyhoedd,
- Gyda chefnogaeth y Rheolwr TGCh, roi arweiniad o ddydd i ddydd i staff wrth ddefnyddio cymwysiadau TGCh a chynorthwyo gyda chyflwyno sesiynau hyfforddi ffurfiol yn ôl yr angen.
- Ymgymryd â dyletswyddau gweinyddu llyfrgelloedd cyffredinol gan gynnwys darparu cymorth mewn cyfarfodydd a bod yn rhan o'r tîm llyfrgelloedd sy'n gosod archebion prynu ac yn ymdrin â gohebiaeth.
- Mynd i gyfarfodydd llyfrgelloedd yn ôl yr angen.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol y rôl hon yw:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch esgeulustod yn y gwaith effeithio arnynt.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella'ch cymhwysedd o fewn rôl y swydd.
- Cynnal a chynnwys ein diben a'n gwerthoedd ym mhopeth yr ydych chi'n ei wneud, gan ddilyn a hyrwyddo pedwar gwerth Awen bob amser – Creadigol, Grymusol, Cydweithredol a Theg.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Herio'n weithredol wahaniaethu a stigma yn y gweithle.
- Bod yn gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg.
- Gofalu am eich lles corfforol a seicolegol eich hun lle bynnag sy'n bosibl.
- Cefnogi lles seicolegol a chorfforol ein cydweithwyr/tîm ac annog diwylliant empathig a chynhwysol.
- Bod yn gyfrifol wrth ein helpu i gyflawni ein huchelgais cynaliadwyedd trwy gyfrannu at leihau eich ôl troed carbon unigol a gweithio tuag at yr amcanion sefydliadol yn unol â strategaeth cynaliadwyedd Awen.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Awen

*Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o bob dyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n rhan o'r swydd hon, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu hamrywio i ddiwallu anghenion y gwasanaeth sy'n newid.*

# Manyleb y Person

## Manyleb y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Hyblyg a rhagweithiol gyda dull gweithredu ac agwedd sy'n seiliedig ar ddatrysiadau. (H)
- Brwdfrydedd ac ysgogiad i wneud i bethau ddigwydd. (H)
- Ymagwedd ac agwedd hygyrch, dawel a theg. (H)
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol . (H)
- Hunan-ddisgybledig ac yn gallu gweithio eich liwt eich hun (H)
- Syniadau blaengar ac yn gallu cyfrannu at ddatblygiad Awen
- Yn dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i ddiben a gwerthoedd Awen.

# Cymwysterau, sgiliau, galluoedd a phrofiad:

## (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Wedi'ch addysgu i lefel TGAU neu gyfwerth, neu'r gallu i ddangos cymhwysedd trwy brofiad (H)
- Profiad o ddefnyddio amrywiaeth o becynnau TGCh gan gynnwys pecynnau Microsoft a systemau llyfrgell (H)
- Yn gallu trefnu gwaith i fodloni dyddiadau cau (H)
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn ddylanwadol, yn ysgrifenedig ac ar lafar (H)
- Sgiliau gweinyddu cryf gydag ymagwedd fethodegol a sylw i fanylion (H)
- Sgiliau rhifedd rhagorol gan gynnwys coladu ac adrodd data ariannol manwl/adrodd (H)
- Gwybodaeth gynhwysfawr o adnoddau a phrosesau llyfrgelloedd (H)
- Tystiolaeth a dealltwriaeth o gynnig a gwasanaethau Llyfrgelloedd Awen
- Yn gallu siarad Cymraeg